Ry'n ni wedi cadw ffeiliau a elwir yn cwcis ar eich dyfais. Mae'r cwcis hyn:

- yn hanfodol i'r safle weithio
- yn ein helpu ni i wella'n gwefan drwy gasglu ac adrodd gwybodaeth ar sut yr ydych yn defnyddio'r safle

Byddem hefyd yn hoffi cadw rhai cwcis i'n helpu ni i deilwra cyfathrebu.

Derbyn cwcis

Newid gosodiadau cwcis



DATGANIAD CABINET

# Datganiad Ysgrifenedig: Datganiad ar gyfres arholiadau'r haf

**Kirsty Williams, Y Gweinidog Addysg**

Rydym mewn cyfnod na welwyd ei debyg o'r blaen, un sy'n newid o awr i awr, ac mae gofyn i lywodraethau ym mhob rhan o'r byd wneud penderfyniadau yn gyflym. Rydym yn cydnabod y gofid a'r pryder a achoswyd gan yr ansicrwydd am arholiadau'r haf. Heddiw fe wnes i gyfarfod â Chymwysterau Cymru a CBAC i ystyried opsiynau sydd er budd pennaf ein dysgwyr. Rydym yn cydnabod nad oes unrhyw ddewisiadau hawdd, ond rydym yn gytûn mai'r ffordd orau ymlaen yw peidio â pharhau gydag arholiadau'r haf. Er mwyn cydnabod eu gwaith, dyfernir gradd deg i'r dysgwyr a oedd i fod i sefyll arholiadau TGAU a Lefel A yn ystod yr haf, gan dynnu ar ystod yr wybodaeth sydd ar gael. Byddwn yn gweithio gyda'r sector i gyhoeddi rhagor o fanylion yn fuan, ond roeddem am roi'r sicrwydd hwn ar y cyfle cyntaf posib. Ni fyddwn ychwaith yn defnyddio'r canlyniadau i gyhoeddi

deilliannau mesurau perfformiad yn 2020.

PERTHNASOL

**Addysg a gofal plant: coronafeirws** (https://llyw.cymru/addysg-coronafeirws)

- **Profion ac asesiadau: coronafeirws** (https://llyw.cymru/profion-ac-asesiadau-coronafeirws)

**Coronafeirws (COVID-19)** (https://llyw.cymru/coronafeirws)

### Cyhoeddwyd gyntaf

18 Mawrth 2020

### Diweddarwyd ddiwethaf

18 Mawrth 2020